Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Age Cymru Gwynedd a Môn**

**Cartref**
**Caernarfon**
**LL54 7UW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

## 4 Hydref 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn ag Age Cymru Gwynedd a Môn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Darparwr cofrestredig | Age Cymru Gwynedd a Môn |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus ar y gofal a'r gefnogaeth maent yn ei dderbyn gan Age Cymru Gwynedd a Môn. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus ar y gofal a'r cymorth y maent yn ei dderbyn; maent yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac yn gallu siarad â'r staff gofal os oes ganddynt unrhyw bryderon neu broblemau. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn eu hasesiadau a'u hadolygiadau. Gellid gwella cynlluniau personol i ddarparu gwybodaeth fanwl am sut y gellir diwallu anghenion y bobl. Mae asesiadau risg ar waith i ddiogelu'r bobl a'r staff.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwyr. Mae'r hyfforddiant angenrheidiol yn cefnogi'r tîm staff yn eu datblygiad ac i fod yn fedrus yn eu rolau. Dylid gwella amlder goruchwyliaeth.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion cadarnhaol. Mae prosesau recriwtio ar waith i sicrhau bod gan y staff gofal y sgiliau cywir a'r ymagwedd gywir at ofal. Mae'r gwasanaeth yn cyfathrebu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosib.

Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Caiff y staff sy'n siarad Cymraeg eu pennu i weithio gyda'r rheini sy'n siarad Cymraeg sy'n derbyn y gwasanaeth. Mae'r broses recriwtio yn nodi siaradwyr Cymraeg.

## Llesiant

Mae gan y bobl berthynas gadarnhaol â’r staff gofal, sy'n eu trin â pharch a charedigrwydd. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus ar y gofal a'r cymorth y maent yn ei dderbyn; maent yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac yn gallu siarad â'r staff gofal os oes ganddynt unrhyw bryderon neu broblemau.

Mae gan y gwasanaeth dîm cyson o staff, sy'n cefnogi'r bobl i gynnal perthnasoedd cadarnhaol. Mae'r staff gofal yn hyderus ac yn frwdfrydig yn eu rolau ac yn gwybod anghenion y bobl yn dda.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi hawliau a dewisiadau'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym y gallant wneud dewisiadau ynghylch ble a sut i dreulio eu diwrnod. Mae anghenion unigol y bobl yn diffinio eu cynllun personol a'u nodau; mae gofal a chymorth yn cael eu haddasu i weddu iddynt. Mae'r staff yn holi'r bobl am eu dymuniadau, yn eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal, ac yn eu cefnogi i gael canlyniadau ystyrlon. Mae anghenion y bobl, a risgiau i ddiogelwch a llesiant, wedi'u dogfennu'n dda.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi a'u hannog i fod mor annibynnol a heini ag y gallant fod. Mae’r bobl yn cael eu galluogi i fyw yn eu cartrefi eu hunain a bod yn rhan o’u cymuned. Gwnaethom siarad â pherson sy’n defnyddio’r gwasanaeth a ddywedodd wrthym, yn dilyn cyfnod o adsefydlu, bod ei becyn gofal wedi’i leihau’n llwyddiannus, gan alluogi’r person i gynnal ei annibyniaeth yn ei gartref ei hun.

Mae’r bobl yn teimlo’n ddiogel ac mae’r staff yn eu hamddiffyn rhag niwed. Mae’r staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu ac mae asesiadau risg ar waith i ddiogelu’r bobl rhag niwed. Mae’r rheolwyr gofal yn asesu anghenion unigol y bobl ac yn cynnal asesiadau risg ac yn ymgynghori â chomisiynwyr os oes angen newid y cymorth a ddarperir. Cedwir cofnodion sy’n ymwneud â’r staff a’r rheolwyr yn ddiogel yn y swyddfa i sicrhau cyfrinachedd. Cedwir cofnodion y bobl yn ddiogel yn y swyddfa a chedwir copïau yn eu cartref.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn profi cynhesrwydd a charedigrwydd gan y staff sy'n eu cefnogi. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus ac wedi ymlacio ym mhresenoldeb y staff gofal. Mae'r staff gofal yn cyfathrebu mewn ffordd gyfeillgar, ofalgar a pharchus. Perchir dewisiadau o ran rhyweddau ac iaith cyfathrebu'r staff wrth drefnu cymorth. Dywedodd y bobl wrthym:

*'Mae'r staff gofal yn broffesiynol'*
*'Maen nhw reit dda, da iawn'*
*'Maen nhw'n wych'*
*'Dim ond canmol nhw i gyd – pob peth tu hwnt'*
*'Dwi'n hapus iawn ar y gofal dwi'n ei dderbyn ac oherwydd hyn efallai y bydda i'n dymuno cynyddu'r gwasanaeth.'*
*'Dim ond dau achlysur sydd wedi bod lle dwi wedi cael gofalwr gwahanol. Cafodd y gofalwr ei gyflwyno cyn rhoi cymorth.'*

Rhannodd perthnasau eu barn am y gwasanaeth gan ddweud:
*'Iawn'*

*'Da iawn, iawn.'*

*'Maen nhw yma pan dwi eu hangen, ar unwaith.'*
*'Dwi'n teimlo fy mod i'n medru mynd at y staff.'*

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau personol ac mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau personol mewn perthynas ag iechyd a llesiant y bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cymryd rhan yn y broses adolygu. Gellid datblygu cynlluniau personol ymhellach i ddarparu gwybodaeth fanwl i'r gofalwyr er mwyn iddynt ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Nid yw pob cynllun personol yn rhoi manylion amseroedd galwadau penodol. Rydym wedi hysbysu'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr bod angen gwelliannau ynglŷn â hyn er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl maent yn eu cynorthwyo'n dda ac yn gallu rhagweld eu dymuniadau a'u canlyniadau. Mae timau staff cyson ar waith i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl sy'n cael eu cynorthwyo gan y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn helpu i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth bosibl. Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau y byddent yn eu dilyn. Mae polisïau priodol ar waith a dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r polisi diogelu. Gwnaethant ddweud eu bod yn gwybod sut i adrodd am faterion i'r rheolwyr a'u bod yn hyderus y byddai camau priodol yn cael eu cymryd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo gan wasanaeth sydd â thîm o staff sy’n briodol gymwys ac sydd â’r wybodaeth, y cymhwysedd a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys yr wybodaeth ofynnol ac mae prosesau recriwtio ar waith. Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer yr holl staff. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod yr holl staff wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae cofnodion yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ac yn mynychu cyfarfodydd staff. Darperir staffio yn dibynnu ar anghenion asesedig y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y staff eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr a'r unigolyn cyfrifol, a'u bod yn rhan o raglen datblygu staff sy'n cynnwys goruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol. Mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol cynnal goruchwyliaeth staff un i un ffurfiol o leiaf bob chwarter. Gwnaethom hysbysu'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwyr bod angen gwelliannau mewn perthynas â hyn er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, megis cwynion, diogelu a meddyginiaeth.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn chwarae rhan weithredol, mae ganddo oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth ac mae'r trefniadau sicrhau ansawdd yn gyfoes. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal dadansoddiad clir a manwl o ansawdd y gofal a ddarperir gan y gwasanaeth. Mae'r adroddiadau a gynhyrchwyd yn amlinellu meysydd i'w gwella a datblygiadau pellach sydd eu hangen i gyflawni hyn.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth glir i'r cyhoedd. Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben sy’n disgrifio’n glir ar gyfer pwy mae’r gwasanaeth a sut y bydd yn cael ei gyflenwi. Mae’r bobl yn cael gwybodaeth sydd yn disgrifio’r gwasanaeth ac yn rhoi gwybod iddynt sut i wneud cwyn. Mae'r datganiad o ddiben yn cael ei adolygu'n barhaus a'i ddiwygio i adlewyrchu'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| --- | --- | --- |
| 36 | Ni ddarperir goruchwyliaeth un i un i'r staff bob chwarter. | Newydd |
| 15 | Nid yw’r cynlluniau personol yn cynnwys y camau manwl sy’n ofynnol ar gyfer diwallu llesiant, gofal a chymorth y bobl o ddydd i ddydd. Nid yw pob cynllun personol yn cynnwys yr amser y mae’r person yn ei ffafrio ar gyfer galwadau. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 09/11/2022